# Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Mai 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(09.00 – 09.05) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 1 – Adroddiad drafft

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

2.1 SL(6)350 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2023

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(09.05 – 09.10)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

3.1 SL(6)351 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

(Tudalennau 2 – 4)

Gorchymyn

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)354 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 5 – 9)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-14-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 26 Ebrill 2023

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.3 SL(6)348 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023**

(Tudalennau 10 – 13)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 5 – Adroddiad drafft

LJC(6)-14-23 – Papur 6 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Ebrill 2023

**3.4 SL(6)353 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023**

(Tudalennau 14 – 18)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 7 – Adroddiad drafft

LJC(6)-14-23 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Ebrill 2023

3.5 SL(6)352 - Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023

(Tudalennau 19 - 23)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

Dogfennau atodol:

LJC(6)-14-23 - Papur 9 - Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

(09.10 - 09.15)

4.1 SL(6)341 - Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

(Tudalennau 24 - 29)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-14-23 - Papur 10 - Adroddiad

LJC(6)-14-23 - Papur 11 - Ymateb Llywodraeth Cymru

4.2 SL(6)349 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

(Tudalennau 30 - 32)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-14-23 - Papur 12 - Adroddiad

LJC(6)-14-23 - Papur 13 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(09.15 - 09.25)

5.1 **Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE**

(Tudalennau 33 - 36)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-14-23 - Papur 14 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Mai 2023

LJC(6)-14-23 - Papur 15 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Mai 2023

5.2 **Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 37 - 38)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-14-23 - Papur 16 - Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Mai 2023

5.3 **Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd**

(Tudalen 39)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-14-23 - Papur 17 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 3 Mai 2023

## 6 Papurau i'w nodi

(09.25 - 09.30)

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.30)

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

(09.30 – 09.45) (Tudalennau 40 – 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 18 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

(09.45 – 09.55) (Tudalennau 53 – 61)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 19 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-14-23 – Papur 20 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mewnfudo Anghyfreithlon

(09.55 – 10.10) (Tudalennau 62 – 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 21 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 11 Cytundebau rhyngwladol

(10.10 – 10.15) (Tudalennau 71 – 74)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 22 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 12 Blaenragalen waith

(10.15 – 10.25) (Tudalen 75)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-14-23 – Papur 23 – Papur Blaengynllunio Gwaith [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 09 Mai 2023

## SL(6)350 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Mae rheoliad 24K o Reoliadau 2003 yn darparu na chaiff awdurdod lleol godi swm ar ei gyfrif refeniw i adlewyrchu unrhyw amrywiad yng ngwerth teg buddsoddiad awdurdod lleol mewn cronfa fuddsoddi gyfun. Yn hytrach, rhaid cofnodi'r symiau hynny mewn cyfrif ar wahân sydd wedi ei greu at y diben hwnnw yn unig ac a ddefnyddir at y diben hwnnw yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn cymhwysiad rheoliad 24K ddwy flynedd ariannol ychwanegol i 31 Mawrth 2025.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Llywodraeth Leol 2003
**Fe'u gwnaed ar:** 18 Ebrill 2023
**Fe'u gosodwyd ar:** 20 Ebrill 2023
**Yn dod i rym ar:** 19 Mai 2023

# SL(6)351 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 ("y Gorchymyn") yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 122 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) - Ebrill 2023" ("y Ddogfen"). Mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth

Mae'r Ddogfen yn disodli Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol ("dogfen gychwynnol 2022") a ddaeth i rym ar 7 Rhagfyr 2022 ac a gafodd effaith ôl-weithredol o 1 Medi 2022 ymlaen ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-23.

Cyflwynodd dogfen gychwynnol 2022 newidiadau i gyflog ac amodau athrawon yn unol ag argymhellion pedwerydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Ers rhoi dogfen gychwynnol 2022 ar waith, bu cyfnod o weithredu diwydiannol gan undebau athrawon. Mae trafodaethau helaeth wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn cynnig pecyn diwygiedig ar gyflog ac amodau i athrawon. Fel rhan o'r pecyn hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i weithredu codiad cyflog pellach ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. Mae'r ddogfen sy'n dod i rym gan y Gorchymyn yn gwneud newidiadau i'r cyflog ar gyfer 2022/23 yn unig. Bydd newidiadau pellach i gyflog ac amodau sydd i'w gwneud o ganlyniad i'r trafodaethau yn cael eu gweithredu drwy ddogfen cyflog ac amodau yn y dyfodol.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2022 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 (erthygl 3) ac yn disodli'r tâl ac amodau cyflogaeth eraill athrawon ysgol yng Nghymru y mae'r Gorchymyn hwnnw yn rhoi effaith iddynt.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 19 Ebrill 2023 gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg a Addysg, yn esbonio:

> *"Yn dilyn trafodaethau helaeth ag undebau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynnig cyflog newydd gwell i athrawon a phenaethiaid.*
>
> *Ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, yn ogystal â'r codiad cyflog o 5% a ddyfarnwyd eisoes, roedd y cynnig cyflog diwygiedig yn cynnwys 3% arall, gydag 1.5% ohono yn gyfunedig ac 1.5% ohono heb fod yn gyfunedig.*
>
> *O ganlyniad, byddaf heddiw yn gwneud Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 sy'n rhoi effaith i adran 2 o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 (diwygiwyd) – Ebrill 2023.*
>
> *Bydd y dyfarniad cyflog yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Medi 2022.  Y cyflogwyr fydd yn gyfrifol am bennu amseriad gweithredu'r dyfarniad.  Mae'r trafodaethau cychwynnol ag awdurdodau lleol wedi bod yn gadarnhaol, gyda'r nod o drefnu bod ôl-daliadau yn cael eu trosglwyddo cyn gynted â phosibl, cyn diwedd mis Ebrill gobeithio.*
>
> *Mae'r Gorchymyn sy'n cael ei wneud heddiw yn rhoi effaith i'r codiadau cyflog ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 bresennol yn unig.  Mae gwneud Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon yn broses flynyddol a bydd y codiad cyflog pellach o 5% a gynigir ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn cael ei weithredu yn y Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon nesaf, ynghyd ag unrhyw newidiadau eraill i'r amodau yn dilyn trafodaethau pellach."*

At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol, wrth ystyried Opsiwn 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r costau ychwanegol yn uniongyrchol:

*"Yn gryno, effaith ariannol gyffredinol cynyddu cyflog athrawon yn 2022/23 gan 1.5% yn ychwanegol a gwneud cyfandaliad arall heb fod yn gyfunedig o 1.5% yw £30 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2022-23 a £21.3 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2023-24. I liniaru effaith y costau hyn ar gyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol, sydd eisoes wedi'u gosod ar gyfer 2022-23 a 2023-24, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r costau ychwanegol hyn yn llawn drwy gyllid grant canol blwyddyn ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mai 2023**

# **SL(6)354 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021"). Bydd y diwygiadau'n ymestyn y ddarpariaeth drosiannol ar gyfer y terfyn dal nitrogen blynyddol o 170kg/ha ar ledaenu tail da byw, a'r gofyniad cadw cofnodion cysylltiedig, ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn parth perygl nitradau (NVZ), a hynny o 30 Ebrill 2023 i 31 Hydref 2023.

Os yw daliadau eisoes o fewn NVZ, nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn effeithio ar y terfyn 170kg a'r gofyniad cadw cofnodion cysylltiedig.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn for y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym) wedi'i thorri, a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a gynigiodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Ebrill 2023. Mae'n nodi fel a ganlyn:

> *"Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ceisio mynd i'r afael ag achosion llygredd dŵr sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol ar draws Cymru. Daeth cam 2 y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2023 ond,*

*mewn perthynas â daliadau neu ran o ddaliadau nas lleolwyd o'r blaen o fewn parth perygl nitradau ("NVZ"), estynnwyd y ddarpariaeth drosiannol ar gyfer y terfyn dal nitrogen blynyddol o 170kg/ha ar ledaenu tail da byw (y 'terfyn 170kg') a'r gofynion adrodd cysylltiedig tan 30 Ebrill 2023.*

*Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y ddarpariaeth drosiannol ar gyfer y terfyn dal nitrogen blynyddol o 170kg/ha ar ledaenu tail da byw (y 'terfyn 170kg') a'r gofynion adrodd cysylltiedig mewn perthynas â daliadau neu ran o ddaliadau nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ eto o fis Ebrill 2023 i 31 Hydref 2023.*

*Yn ddiweddar buom yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu i fusnesau fferm nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ i weithio i derfyn dal nitrogen blynyddol uwch o 250kg/ha, a hynny'n amodol ar angen cnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Cafwyd dros 1,500 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd rhanddeiliaid yn poeni y gallai cynllun trwyddedu fod yn gostus ac yn gymhleth i'w weithredu.* Rydym felly'n gwneud gwaith pellach i ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o nitrogen ac mae angen mwy o amser i gwblhau'r gwaith hwn cyn gweithredu terfyn blynyddol o 170kg/ha. *Yng ngoleuni hynny mae angen inni estyn y cyfnod trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg/ha am chwe mis arall."*

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch diwedd y cyfnod trosiannol:

*"Y rheswm dros beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na ddaw'r Rheoliadau hyn i rym cyn 30 Ebrill 2023, yna mae'r cyfnod trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg ar gyfer daliadau neu ran o ddaliadau nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ yn dod i ben a byddai bwlch yn y ddarpariaeth drosiannol. Mae estyn y darpariaethau trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg a'r gofynion adrodd cysylltiedig tra ein bod yn parhau i ddatblygu ein cynigion ymhellach yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i fusnesau fferm nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2023. Mae paragraff 4 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau:

*"...rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn 29 Ebrill 2023 er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod trosiannol... yn dod i ben ac felly nad oes bwlch yn y ddarpariaeth drosiannol".*

Fodd bynnag, mae paragraff 8 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'n anghywir fel a ganlyn:

*"Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol a deuant i rym ar 30 Ebrill 2023."*

Diffinnir Rheoliadau 2021 ym mharagraff 1 o'r Memorandwm Esboniadol, a defnyddir y diffiniad ym mharagraffau 10 ac 11 y Memorandwm Esboniadol, ond ni chaiff ei ddefnyddio

ym mharagraffau diweddarach y Memorandwm Esboniadol. Nid yw hyn yn helpu'r darllenydd i ddeall at ba reoliadau y mae hyn yn cyfeirio. Nid yw'n glir ar unwaith i ddarllenydd pa reoliadau sy'n cael eu trafod. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, (paragraff 16 o'r Memorandwm Esboniadol) yn cyfeirio at *"dyddiad gweithredu'r rheoliadau"*. Mae paragraff 17 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, os mai busnes fel arfer oedd yr opsiwn a ddewisir, *"byddai'r Rheoliadau yn dod i rym o 30 Ebrill 2023"*. Nid yw'n glir a yw'r cyfeiriadau hyn yn golygu Rheoliadau 2021 (fel y'u diffinnir ym mharagraff 1) neu'r Rheoliadau hyn. Rydym yn cymryd eu bod yn golygu Rheoliadau 2021. Mae paragraff 18 wedyn yn cyfeirio at y *"Rheoliadau"*, ac rydym yn cymryd bod hyn yn golygu Rheoliadau 2021. Mae paragraff 20 yn nodi *"os caiff y Rheoliadau eu diwygio fel y'i cynigir"*, ac rydym yn cymryd bod hyn yn golygu Rheoliadau 2021. Dilynir hyn ym mharagraffau 22-24 gyda'r defnydd o *"y Rheoliadau"* ym mhob un ohonynt. Unwaith eto, cymerwn fod y cyfeiriadau hyn yn golygu Rheoliadau 2021.

Gall y diffyg eglurder rhwng y ddarpariaeth yn y Rheoliadau eu hunain, ar y naill law, a'r hyn a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol (mewn rhai mannau sy'n gwrthdaro, yn achos y dyddiad dod i rym), achosi dryswch diangen i ddarllenwyr y ddeddfwriaeth, yn enwedig o ystyried cymhlethdod technegol testun Rheoliadau 2021.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mai 2023**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf :MA/LG/1025/23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

26 Ebrill 2023

Annwyl Llywydd

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 29 Ebrill 2023, llai na 21 diwrnod ar ôl ei osod.

Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ynghlwm er gwybodaeth.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ceisio mynd i'r afael ag achosion llygredd dŵr sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol ar draws Cymru. Daeth cam 2 y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2023 ond, mewn perthynas â daliadau neu ran o ddaliadau nas lleolwyd o'r blaen o fewn parth perygl nitradau ("NVZ"), estynnwyd y ddarpariaeth drosiannol ar gyfer y terfyn dal nitrogen blynyddol o 170kg/ha ar ledaenu tail da byw (y 'terfyn 170kg') a'r gofynion adrodd cysylltiedig tan 30 Ebrill 2023.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y ddarpariaeth drosiannol ar gyfer y terfyn dal nitrogen blynyddol o 170kg/ha ar ledaenu tail da byw (y 'terfyn 170kg') a'r gofynion adrodd cysylltiedig mewn perthynas â daliadau neu ran o ddaliadau nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ eto o fis Ebrill 2023 i 31 Hydref 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ddiweddar buom yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu i fusnesau fferm nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ i weithio i derfyn dal nitrogen blynyddol uwch o 250kg/ha, a hynny’n amodol ar angen cnydau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill. Cafwyd dros 1,500 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd rhanddeiliaid yn poeni y gallai cynllun trwyddedu fod yn gostus ac yn gymhleth i'w weithredu. Rydym felly'n gwneud gwaith pellach i ystyried opsiynau ar gyfer rheoleiddio’r defnydd o nitrogen ac mae angen mwy o amser i gwblhau'r gwaith hwn cyn gweithredu terfyn blynyddol o 170kg/ha. Yng ngoleuni hynny mae angen inni estyn y cyfnod trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg/ha am chwe mis arall.

Y rheswm dros beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw, os na ddaw'r Rheoliadau hyn i rym cyn 30 Ebrill 2023, yna mae'r cyfnod trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg ar gyfer daliadau neu ran o ddaliadau nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ yn dod i ben a byddai bwlch yn y ddarpariaeth drosiannol. Mae estyn y darpariaethau trosiannol mewn perthynas â'r terfyn 170kg a'r gofynion adrodd cysylltiedig tra ein bod yn parhau i ddatblygu ein cynigion ymhellach yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i fusnesau fferm nas lleolwyd o'r blaen mewn NVZ.

Bydd copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

# SL(6)348 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023.

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Rhenti 1977, yn benodol i ddarparu ar gyfer olyniaeth i gontract diogel lle cyn hynny,roedd yr hawl olyniaeth yn pennu tenantiaeth sicr (diddymwyd tenantiaethau sicr yng Nghymru gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016).

Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn parhau drwy gyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol yng Nghymru ynghyd â chyfeiriadau at fathau o denantiaethau sydd bellach ond yn bodoli yn Lloegr.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ar 3 Ebrill 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn.
Mae'r llythyr yn datgan:

> *Yn anffodus, ni chafodd diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Rhenti 1977 eu cynnwys yn Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022, a wnaed ar 9 Tachwedd ac a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr. Mae hyn wedi gadael y llyfr statud mewn sefyllfa ansicr a allai arwain at ganlyniadau sylweddol i denantiaid a landlordiaid.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mai 2023**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0793/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('*Deddf 2016'*).

Yn anffodus, ni chafodd diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Rhentu 1977 eu cynnwys yn Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022, a wnaed ar 9 Tachwedd ac a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr. Mae hyn wedi gadael y llyfr statud mewn sefyllfa ansicr a allai arwain at ganlyniadau sylweddol i denantiaid a landlordiaid.

Ar wahân i hynny, mae'r angen i ddiwygio Atodlen 12 i Ddeddf 2016 cyn 31 Mai 2023, ynglŷn â chyhoeddi datganiadau ysgrifenedig o gontractau meddiannaeth, hefyd wedi'i nodi.

Felly, rwy'n bwriadu cyflwyno dau offeryn statudol cadarnhaol sy'n rhoi sylw i'r ddau fater hyn. Rwy'n bwriadu gosod y rheoliadau erbyn 25 Ebrill fan bellaf.

O ystyried y brys sy'n gysylltiedig â gwneud y ddwy set o reoliadau, hoffwn dynnu eich sylw atynt a phwysigrwydd eu trafod ar 16 Mai 2023 fan bellaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai cymorth y Pwyllgor yn y mater hwn yn cael ei werthfawrogi’n fawr.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

# SL(6)353 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Mae Atodlen 12 i Ddeddf 2016 yn ymdrin â throsi tenantiaethau a thrwyddedau a oedd yn bodoli cyn i Ddeddf 2016 ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

O dan Atodlen 12 o Ddeddf 2016, mae'n ofynnol i landlord contract meddiannaeth wedi'i drosi roi datganiad ysgrifenedig o'r contract hwnnw wedi'i drosi i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod penodedig ("y cyfnod darparu gwybodaeth"), hynny yw, mae'n rhaid iddo gael ei roi erbyn 31 Mai 2023. Datgymhwyswyd y gofyniad i ddarparu datganiad ysgrifenedig pan fo newid o ran pwy yw deiliad y contract mewn perthynas â chontractau wedi'u trosi yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth.

Mae'r diwygiadau i Atodlen 12 i Ddeddf 2016, felly, yn darparu:

- pan fo newid o ran pwy yw deiliad contract (o dan gontract wedi'i drosi neu gontract sy'n cymryd contract arall) yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth, bydd yn ofynnol i landlord ddarparu datganiad ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau o 1 Mehefin 2023 neu, os yn hwyrach, y diwrnod y mae'r landlord yn dod yn ymwybodol o'r newid i ddeiliad y contract;
- pan fo contract sy'n cymryd lle contract arall yn dod i fodolaeth yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth, bydd gan y landlord 14 o ddiwrnodau o 1 Mehefin 2023 i ddarparu datganiad ysgrifenedig; a
- pan fod contract sy'n cymryd lle contract arall yn dod i fodolaeth ar ôl y cyfnod darparu gwybodaeth, bydd gan y landlord 14 o ddiwrnodau o'r dyddiad meddiannu o dan y contract hwnnw sy'n cymryd lle'r hen un i ddarparu datganiad ysgrifenedig.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 12 a Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2002(vii)** – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Yn y testun Cymraeg, yn rheoliad 4(a), yn yr is-baragraff newydd (1A), mae'r gair "hunaniaeth" ar ddechrau'r is-baragraff wedi'i gyfieithu'n wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd eisoes yn adran 31 o Ddeddf 2016, ac mewn mannau eraill yn Neddf 2016 megis yn adrannau 39(2) a 42(2).

Mae hyn yn golygu bod y gair "hunaniaeth" yn cael ei gyfieithu'n wahanol ar ddechrau'r is-baragraff newydd (1A) o'i gymharu â'r testun o adran 31(2), a ddyfynnir i'w addasu ar ddiwedd yr is-baragraff hwnnw, er eu bod yn cyfeirio at yr un peth.

Efallai y bydd hyn yn peri dryswch i rywun sy'n darllen y testun Cymraeg. Er y cydnabyddir y gallai "hunaniaeth" fod yn ddewis dilys ar gyfer "identity" wrth gyfieithu deddfwriaeth, gan ddibynnu ar y cyd-destun, byddai'n ymddangos yn well i destun newydd a fewnosodwyd fod yn gyson ag arddull a geirfa bresennol y ddeddfwriaeth wreiddiol. Byddai dull o'r fath hefyd yn gyson â chanllawiau drafftio Llywodraeth Cymru – gweler Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 7.30.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 3 Ebrill 2023 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016').*
>
> …
>
> *Ar wahân i hynny, mae'r angen i ddiwygio Atodlen 12 i Ddeddf 2016 cyn 31 Mai 2023, ynglŷn â chyhoeddi datganiadau ysgrifenedig o gontractau meddiannaeth, hefyd wedi'i nodi."*

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*O dan baragraff 11(1) o Atodlen 12, mae'n ofynnol i landlord contract meddiannaeth wedi'i drosi roi datganiad ysgrifenedig o'r contract hwnnw wedi'i drosi i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod penodedig ("y cyfnod darparu gwybodaeth"), hynny yw, mae'n rhaid iddo gael ei roi erbyn 31/05/23. Darparodd baragraff 11(1A) o Atodlen 12 (a fewnosodwyd gan Ddeddf 2021) fod y gofyniad yn adran 31(2) o Ddeddf 2016 (i ddarparu datganiad ysgrifenedig pan fo newid o ran pwy yw deiliad y contract) wedi'i ddatgymhwyso mewn perthynas â chontractau wedi'u trosi yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth.*

*Fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd Atodlen 12 yn ei wneud yn glir y ddarpariaeth ynghylch gofynion rhoi datganiadau ysgrifenedig ar ôl diwedd y cyfnod darparu gwybodaeth ac yn enwedig pan fo, ar ddiwedd contract wedi'i drosi, gontract sy'n cymryd lle contract arall yn codi. Mae contract sy'n cymryd lle contract arall yn fath o gontract (a bennir ym mharagraff 32 o Atodlen 12) sy'n codi ar ôl i gontract wedi'i drosi ddod i ben."*

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro nad oes unrhyw ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal *"Yn sgil natur dechnegol yr OS"*. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo'r gwelliannau mewn perthynas â datganiadau ysgrifenedig o ystyried bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oedd y sefyllfa'n glir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt Craffu Technegol a'r ail bwynt Craffu Rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mai 2023**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/0793/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('*Deddf 2016'*).

Yn anffodus, ni chafodd diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Rhentu 1977 eu cynnwys yn Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022, a wnaed ar 9 Tachwedd ac a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr. Mae hyn wedi gadael y llyfr statud mewn sefyllfa ansicr a allai arwain at ganlyniadau sylweddol i denantiaid a landlordiaid.

Ar wahân i hynny, mae'r angen i ddiwygio Atodlen 12 i Ddeddf 2016 cyn 31 Mai 2023, ynglŷn â chyhoeddi datganiadau ysgrifenedig o gontractau meddiannaeth, hefyd wedi'i nodi.

Felly, rwy'n bwriadu cyflwyno dau offeryn statudol cadarnhaol sy'n rhoi sylw i'r ddau fater hyn. Rwy'n bwriadu gosod y rheoliadau erbyn 25 Ebrill fan bellaf.

O ystyried y brys sy'n gysylltiedig â gwneud y ddwy set o reoliadau, hoffwn dynnu eich sylw atynt a phwysigrwydd eu trafod ar 16 Mai 2023 fan bellaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai cymorth y Pwyllgor yn y mater hwn yn cael ei werthfawrogi’n fawr.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

# SL(6)352 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 (**Deddf 2014**) yn rhoi swyddogaethau i Gyngor y Gweithlu Addysg (**y Cyngor**) mewn perthynas â phersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor. Mae'r categorïau o bersonau cofrestredig wedi'u nodi yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

Mae Rhan 6 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Tabl 1 i ychwanegu'r categorïau a ganlyn o bersonau cofrestredig:

- athro neu athrawes ysgol annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol;
- athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn darparu na chaniateir i wasanaethau athro neu athrawes ysgol annibynnol gael eu darparu mewn neu ar ran ysgolion annibynnol ond gan bersonau sydd wedi eu cofrestru â'r Cyngor yn y categori athro neu athrawes ysgol annibynnol. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu mai dim ond personau sydd wedi eu cofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol a gaiff gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau athro neu athrawes ysgol annibynnol mewn neu ar ran ysgol annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion i gofrestru a nodir yn y Rhan hon yn gymwys i bersonau sy'n darparu'r gwasanaethau neu'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fel gwirfoddolwyr. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas ag athrawon sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a gweithwyr cymorth i ddysgwyr.

Mae Rhan 4 yn darparu bod person yn gymwys i gofrestru dros dro fel gweithiwr ieuenctid os yw'n gweithio tuag at ennill cymhwyster gweithiwr ieuenctid. Hefyd, mae person yn gymwys i gofrestru dros dro fel gweithiwr cymorth ieuenctid os yw'n gweithio tuag at ennill cymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid.

Mae Rhan 4 hefyd yn gosod dyletswyddau ar y Cyngor i lunio a chynnal rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a chymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid. Rhaid i'r Cyngor hysbysu Gweinidogion Cymru, yn flynyddol, am unrhyw ddiwygiadau y dylid eu gwneud i'r rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a'r rhestr o gymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid fel y'u nodir yn Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 (**Gorchymyn 2016**).

Mae Rhan 5 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (**Rheoliadau 2015**) mewn perthynas ag athrawon ysgol a

gweithwyr cymorth dysgu. Mae'r diffiniad o "gwaith penodedig" yn rheoliad 17 o Reoliadau 2015 wedi ei ddiwygio er mwyn gwneud yn siŵr bod pob athro sy'n bennaeth neu sydd â rôl arwain uwch arall yn cael ei gwmpasu yn y categori athro neu athrawes ysgol. Mae'r diwygiadau hefyd yn symleiddio'r gofynion mewn perthynas â gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion ac yn ei gwneud yn glir nad oes rhaid i athro neu athrawes ysgol gofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu hefyd oni bai bod y person hwnnw wedi'i gyflogi fel gweithiwr cymorth i ddysgwyr mewn ysgol yng Nghymru neu'n ymwneud fel arall â'r rôl. Mae'r diwygiadau hefyd yn diwygio'r gofynion mewn perthynas â gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach i'w gwneud yn glir nad oes rhaid i athro neu athrawes addysg bellach gofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach hefyd oni bai bod y person hwnnw wedi'i gyflogi fel gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

Mae Rhan 7 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 er mwyn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swm y ffi gofrestru sy'n daladwy gan y categorïau cofrestru newydd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Rhan 6 o'r Gorchymyn yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf 2014 drwy ychwanegu pedwar categori newydd o bersonau cofrestredig:

- athro neu athrawes ysgol annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol;
- athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn ymdrin â dehongli'r Gorchymyn. Mae erthygl 2 yn cyfeirio at ystyr "athro neu athrawes ysgol annibynnol" ac "athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio at ystyr "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol" neu "gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

Nid yw'n glir pam mae dau o'r categorïau newydd wedi'u cynnwys yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn tra nad yw'r ddau gategori newydd arall wedi'u cynnwys.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Atodlen 1 i Orchymyn 2016 yn nodi rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid cymeradwy (h.y. cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo at ddibenion cofrestru fel gweithiwr ieuenctid).

Mae'r Gorchymyn hwn yn diweddaru'r rhestr; fodd bynnag, mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys dau gymhwyster sydd eisoes ar y rhestr, sef:

- gradd israddedig mewn datblygu ieuenctid a chymunedol a ddyfernir gan Bradford College;
- gradd israddedig mewn gwaith ieuenctid a chymunedol a ddyfernir gan University of Bedfordshire.

Nid yw'n glir pam mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn hwn.

Rydym hefyd yn nodi'r dull anghyson a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn i ddiweddaru'r rhestr. Er enghraifft, mae dau gorff dyfarnu newydd (University of Bolton a University of Wolverhampton) wedi'u cynnwys mewn perthynas â'r radd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, defnyddiwyd gwahanol ddulliau o gynnwys y cyrff dyfarnu hynny, sy'n golygu y bydd y rhestr yng Ngorchymyn 2016 bellach yn edrych fel hyn (testun coch yn dangos y testun a fewnosodir gan y Gorchymyn hwn):

| **Cymhwyster mewn perthynas [â] Lloegr** | **Corff dyfarnu** |
|---|---|
| Gradd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid | Ruskin College, Oxford<br>University of Wolverhampton |
| Gradd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid | University of Bolton |

Efallai y byddai wedi bod yn gliriach pe bai'r cofnod wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cymhwyster hwn yn edrych fel hyn:

| **Cymhwyster mewn perthynas [â] Lloegr** | **Corff dyfarnu** |
|---|---|
| Gradd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid | Ruskin College, Oxford<br>University of Bolton<br>University of Wolverhampton |

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Teitl y Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023". Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y Gorchymyn hwn yn gwneud mwy na dim ond creu categorïau ychwanegol o bersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor. Er enghraifft:

- Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn ymdrin â gofynion cymwysterau mewn perthynas â gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid. Mae "gweithiwr ieuenctid" a "gweithiwr cymorth ieuenctid" eisoes yn bodoli fel categorïau cofrestru; nid categorïau ychwanegol yw'r rhain.
- Mae Rhan 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio gofynion cofrestru o fewn y categori sydd eisoes yn bodoli, sef "athro neu athrawes ysgol"; nid yw Rhan 5 yn creu categori cofrestru ychwanegol.

Felly, tybed a yw teitl y Gorchymyn hwn yn adlewyrchu'n ddigonol yr hyn y mae'r Gorchymyn hwn yn ei wneud.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r disgrifiad o "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014. Mae erthygl 11 yn diwygio'r disgrifiad fel bod y cyfeiriad presennol at weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn 'darparu' gwasanaethau yn cael ei newid i gyfeiriad at weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn 'cefnogi' y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r newid hwnnw, yn ôl y disgwyl, hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y diwygiadau a wnaed i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

Fodd bynnag, nodwn nad yw'r un newid wedi'i wneud i'r disgrifiadau o "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" a "gweithiwr cymorth ieuenctid" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014 – mae'r ddau ddisgrifiad hyn yn parhau i gyfeirio at weithwyr cymorth yn 'darparu' gwasanaethau.

O ystyried nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw esboniad o'r newid a wnaed mewn perthynas â "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol", nid yw'n glir a ddylid gwneud yr un newid o ran y disgrifiadau o "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" a "gweithiwr cymorth ieuenctid".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mai 2023**

# SL(6)341 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ynghylch awdurdodiadau cynhyrchion bwyd rheoleiddiedig. Maent hefyd yn gwneud mân gywiriadau i gyfraith bwyd a chyfraith bwyd anifeiliaid

- Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer awdurdodi, o ran Cymru, roi ar y farchnad a defnyddio'r ychwanegyn bwyd E 960c (*rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau*), newid y cofnodion awdurdodi presennol ar gyfer yr ychwanegyn bwyd E 960 (*glycosidau stefiol*) i nodi E 960a (*glycosidau stefiol o Stevia*), darpariaethau trosiannol cysylltiedig ac yn gwneud mân gywiriadau.
- Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer awdurdodi, o ran Cymru, roi ar y farchnad a defnyddio'r cyflasyn bwyd "*3-(1-((3,5-deumethylisocsasol-4-yl)methyl)-1H-pyrasol-4-yl)-1-(3-hydrocsybensyl)imidasolidin-2,4-dion*".
- Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn ymestyn yr awdurdodiad presennol ar gyfer y bwyd newydd "burum pobi sydd wedi ei drin ag UV (*Saccharomyces cerevisiae*)", i gynnwys categorïau bwyd penodedig ychwanegol, gan awdurdodi rhoi ar y farchnad bowdr madarch fitamin $D_2$ newydd fel bwyd newydd i'w ddefnyddio yn y categorïau bwyd penodedig.
- Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys mân gywiriadau i is-offerynnau Cymreig amrywiol ar gyfraith bwyd a chyfraith bwyd anifeiliaid.

Daeth Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Ebrill 2023. Daw Rhannau 2, 3 a 4 i rym ar 15 Mai 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 2 a pharagraff 4(h) o Atodlen 1 yn rhoi E-rifau "*E 960a ac E 960c*" yng nghategori 05.1 yn y tabl sy'n ymddangos yn Rhan E o Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008. Mae hyn yn awdurdodi defnyddio'r E-rifau hynny fel ychwanegion bwyd mewn rhai cynhyrchion coco a siocled.

Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hefyd yn mewnosod cyfeiriad at droednodyn "(1)" mewn perthynas â'r awdurdodiad, sydd ddim yn gyfeiriad at droednodyn sy'n ymddangos o fewn categori 05.1 yn y tabl. Felly, ymddengys bod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r awdurdodiad ar goll.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Rheoliad 2 a pharagraff 4(i)(ii) o Atodlen 1 yn rhoi E-rifau "*E 960a ac E 960c*" yng nghategori 05.2 (melysion eraill gan gynnwys micro-felysion ar gyfer puro'r anadl) o'r tabl yn Rhan E o Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008. Mae'r cofnod a roddwyd yn lle'r testun gwreiddiol yn cynnwys y cyfyngiad a ganlyn ar yr awdurdodiad: "o*nly cocoa, milk, dried-fruit-**<u>based</u> [pwyslais wedi'i ychwanegu]** or fat-based sandwich spreads,…*".

Ymddegnys bod y geiriad hwn yn awdurdodi defnyddio'r E-rifau uchod ar gyfer dau fath penodol o daeniad brechdanau (sef taeniadau brechdanau wedi'u seilio ar ffrwythau sych a thaeniadau brechdanau sydd wedi'u seilio ar fraster). Fodd bynnag, nid yw'n glir ai dyma yw bwriad y gwaith drafftio wrth gymharu geiriad y cyfyngiad hwnnw â chyfyngiadau presennol tebyg yng nghategori 05.2 o'r tabl, sy'n gwneud y cyfeiriad a ganlyn "*only cocoa, milk, dried fruit or fat-based sandwich spreads,…*".

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 2 ac is-baragraffau (o), (p) a (q) o baragraff 4 yn Atodlen 1 yn rhoi awdurdodiad ar gyfer E-rifau "*E 960a ac E 960c*" yn lle "*E 960*" ar gyfer categorïau amrywiol o felysyddion bwrdd, sef melysyddion ar ffurf hylif, ar ffurf powdr ac ar ffurf tabledi yn y drefn honno. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdodiadau a roddwyd yn lle'r testun gwreiddiol yn pennu a ellir ychwanegu'r ychwanegion yn unigol neu mewn cyfuniad, sy'n groes i awdurdodiadau eraill yn y tabl yn Rhan E o Atodiad 2 i Reoliad (EC) Rhif 1333/2008, sy'n cyfeirio at E-rifau gyda'i gilydd. Felly, nid yw'n glir ar unwaith a yw hwn yn hepgoriad bwriadol ac, os felly, sut y dylid dehongli'r awdurdodiad ar gyfer yr ychwanegion penodol hyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3 ac Atodlen 2 yn diwygio'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 drwy roi "E 960a Steviol Glycosides from Stevia" yn bennawd ar gyfer y cofnod presennol sy'n cyfeirio at "E 960 Steviol Glycosides", a mewnosod cofnod newydd ar gyfer E 960c ("*rebaudiosid M a gynhyrchir drwy addasu glycosidau stefiol o Stevia ag ensymau.*").

Fodd bynnag, mae Erthygl 4 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012 (Dod i rym) yn parhau i gyfeirio at fanyleb a nodwyd yn yr Atodiad ar gyfer "steviol glycosides (E 960)", nad yw'n ymddangos yn yr Atodiad mwyach o ganlyniad i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 6 ac Atodlen 5 yn diweddaru'r rhestr o fwydydd newydd awdurdodedig yn yr Atodiad i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2470 drwy fewnosod cofnod newydd sy'n awdurdodi powdr madarch fitamin fitamin $D_2$ newydd fel bwyd newydd i'w ddefnyddio mewn categorïau penodol o fwyd.

Mae'r rhestr o fwydydd newydd yn yr Atodiad yn cynnwys dau dabl. Mae "Tabl 1" yn rhestru'r holl fwydydd newydd awdurdodedig ac o dan ba amodau y gellir defnyddio'r bwydydd hyn, yn ogystal â gofynion eraill (er enghraifft, lefelau uchaf amrywiol o fitamin $D_2$ a ganiateir mewn gwahanol gategorïau o fwyd). Mae "Tabl 2" yn rhestru'r holl fwyydd newydd awdurdodedig a'r manylebau cyfatebol.

Mae'r Atodiad (fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) bellach yn cynnwys cofnodion ar gyfer dau fath o bowdr madarch Fitamin $D_2$. Er mai'r un yw'r enw a roddir i'r bwydydd newydd hyn yn yr Atodiad, mae'r manylebau a'r amodau ar gyfer y ddau gofnod yn amrywio. Yn unol â hynny, ymddengys y gellid peri dryswch i rywun sy'n darllen y ddeddfwriaeth wrth benderfynu pa fanyleb ar gyfer powdr madarch Fitamin $D_2$ yn Nhabl 2 sy'n cyfateb i'r amodau perthnasol a'r gofynion eraill ar gyfer ei ddefnyddio sy'n ymddangos yn Nhabl 1.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i gywirio tri offeryn statudol Cymreig i ymdrin â phwyntiau craffu technegol 2, 3 a 5 a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor hwn ar Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi (ym mharagraff 3) y rhoddwyd sylw i'r ddau bwynt craffu technegol arall a nodwyd gan y Pwyllgor yn yr adroddiad hwnnw cyn cyhoeddi'r Rheoliadau hynny.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau craffu technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau Bwyd, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd, ond nid yw'n ystyried y bydd y testun yn y troednodyn sydd ar goll yn peri dryswch sylweddol. Mae testun troednodyn (1) yn gyson drwy gydol Rhan E o Atodiad 2 i EUR 2008/1333, felly bydd yr hyn y mae'r troednodyn yn ei ddynodi yn amlwg i ddarllenydd y ddeddfwriaeth.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud y cywiriad yn yr offeryn statudol awdurdodi ychwanegion bwyd nesaf sy'n diwygio EUR 2008/1333. Rydym yn rhag-weld y bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn chwarter cyntaf 2024.

**Pwynt craffu technegol 2:** Mae'r ail gofnod ar gyfer glycosidau stefiol E 960 (E 960a ac E 960c bellach) yng nghategori 05.2 yn cwmpasu pob taeniad brechdanau sydd wedi'i seilio ar goco, llaeth, ffrwythau sych neu fraster (neu unrhyw gyfuniad o'r pethau hyn).

Mae'r Llywodraeth yn nodi bod anghysondeb rhwng geiriad y cofnod hwn a chofnodion eraill yn 05.2. Mae'r Llywodraeth hefyd yn nodi bod anghysondebau ehangach eisoes yng ngeiriad y cofnodion eraill yng nghategori 05.2, ac ar draws categorïau eraill Rhan E o Atodiad 2 i EUR 2008/1333 fel y'i dargadwyd.

Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r offeryn hwn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yn cadarnhau mai diben Rhan 2 yw rhoi effaith i awdurdodi dull newydd o gynhyrchu ychwanegyn sy'n bodoli eisoes. Mae'r cofnodion presennol ar gyfer glycosidau stefiol E 960 yn Rhan E o Atodiad 2 i EUR 2008/1333 yn cael eu hailddatgan yn erbyn yr E-rifau 960a ac E 960c diwygiedig. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn glir nad oes bwriad i wneud unrhyw newid i'r categorïau bwyd y caniateir yr ychwanegyn ar eu cyfer nac i unrhyw un o'r cyfyngiadau neu'r eithriadau a restrir.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn y gallai'r anghysondebau rhwng y cofnodion beri dryswch sylweddol. Mae cwmpas arfaethedig cywir y cofnodion (gan gynnwys y cofnod penodol o dan sylw) wedi ennill ei blwyf ac yn ddealladwy i randdeiliaid.

O ran y cofnod penodol o dan sylw, mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi eglurhad pellach yn yr offeryn statudol awdurdodi ychwanegion bwyd nesaf sy'n diwygio EUR 2008/1333.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Yn Rhan E o Atodiad 2 i EUR 2008/1333, nid yw'r cofnodion yn y tabl ar gyfer ychwanegion bwyd E 960a ac E 960c yng nghategorïau 11.4.1, 11.4.2 ac 11.4.3 yn cynnwys terfynau rhifiadol uchaf ond maent i'w cymhwyso yn unol â *quantum satis.* Diffinnir "*quantum satis*" yn Erthygl 3(2)(h) o EUR 2008/1333. Nid oes angen cynnwys troednodyn rhif (1) felly. Mae'r troednodyn

hwnnw’n pennu y gellir ychwanegu ychwanegion yn unigol neu mewn cyfuniad, ac felly nid yw’n berthnasol ond pan fo lefel rifiadol uchaf benodedig wedi ei rhagnodi.

Mae troednodyn (1) yn ddiangen yn unrhyw gofnod presennol sy’n cwmpasu mwy nag un ychwanegyn lle caniateir defnydd yn unol â *quantum satis*. Gan fod gweithrediad egwyddor *quantum satis* yn glir, mae’r Llywodraeth wedi ei bodloni na fydd y defnydd anghyson o’r troednodyn yng nghofnodion presennol Rhan E o Atodiad 2 yn arwain at anawsterau dehongli ar gyfer y cofnodion yr effeithir arnynt.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Nid yw’r Llywodraeth o’r farn bod y pwynt yn nodi diffyg yn yr offeryn neu fethiant i gyflawni gofyniad statudol. Mae’r pwynt yn cyfeirio at Erthygl 4 o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 231/2012, sef y ddarpariaeth dod i rym, a ddisbyddwyd i bob pwrpas pan ddaeth y Rheoliad yn gwbl gymwys ym mis Rhagfyr 2012. Nid yw’r Llywodraeth o’r farn ei bod yn angenrheidiol i’r offeryn hwn geisio diwygio Erthygl 4.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Yn yr Atodiad i EUR 2017/2470, mae gan bob cofnod yn Nhabl 1 fanyleb gyfatebol yn Nhabl 2. Mae’r cofnodion yn Nhabl 1 yn ymwneud â’r manylebau cyfatebol yn Nhabl 2 yn yr un drefn ag y’u hysgrifennwyd. Nid yw’r Llywodraeth o’r farn y gallai hyn beri dryswch.

Mae manylion ynghylch bwydydd newydd awdurdodedig hefyd ar gael drwy gyfeirio at y gofrestr bwydydd newydd. Bydd hon yn cael ei diweddaru unwaith y daw Rhan 4 o’r offeryn hwn i rym. Mae’r gofrestr ar gael i’r cyhoedd ar https://data.food.gov.uk/regulated-products/novel_authorisations.

# SL(6)349 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion sy'n ymwneud ag apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002.

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020") ddiwygiadau dros dro i Reoliadau 2005 er mwyn caniatáu, o dan amgylchiadau penodol sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws—

(a) panelau apêl a chanddynt ddau aelod;

(b) i banelau apêl gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig.

Darparodd rheoliad 2(2) o Reoliadau 2020 fod y diwygiadau hynny wedi peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021, ond roedd hynny yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed yn rheoliad 3 o Reoliadau 2020. Diwygiwyd y dyddiad hwnnw i 30 Medi 2021 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn)(Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau pellach 2020"). Diwygiwyd y dyddiad eto i 30 Medi 2022 gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2005. Mae rheoliad 3(5)(a) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd A1 yn Atodlen 2 i Reoliadau 2005. Mae paragraff A1 yn caniatáu i awdurdodau derbyn benderfynu, o dan amgylchiadau penodol, a yw gwrandawiad apêl i'w gynnal yn bersonol, drwy fynediad o bell ("apêl o bell") neu'n rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy fynediad o bell ("apêl hybrid") (paragraff A1(1) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn). Os yw'r awdurdod derbyn yn penderfynu cynnal apêl o bell neu apêl hybrid rhaid iddo wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol (paragraffA1(3) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2005 ymhellach i ganiatáu i'r awdurdod derbyn benderfynu y caniateir i apêl gael ei phenderfynu ar sail gwybodaeth

ysgrifenedig o dan amgylchiadau penodol (paragraff A1(5) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y mae wedi ei fewnosod gan y Rheoliadau hyn).

Mae darpariaeth bellach mewn perthynas ag apelau derbyn wedi ei gwneud mewn cod o dan adran 84 o Ddeddf 1998.

## Gweithdrefn

Negyddol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraffau (3) a (4) o reoliad 3 yn diwygio rheoliadau 3 a 5 o Reoliadau 2005 drwy fewnosod y geiriau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" ar ddiwedd y rheoliadau priodol. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi:

> *Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Yr effaith yw bod Rheoliadau 2005yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio gan Reoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 na Rheoliadau 2021.*

Os mai'r effaith yw bod Rheoliadau 2005 yn parhau mewn effaith a'u bod heb eu diwygio, pam bod angen y diwygiadau uchod? Mae'r geiriau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" eisoes yn ymddangos yn Rheoliadau 2005.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth i'r Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd. Canlyniad y diwygiad a wneir gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") i reoliad 3 o Reoliadau 2005 yw bod dau gyfeiriad at Atodlen 1 wrth ymyl ei gilydd (h.y. Atodlen 1 Atodlen 1). Yn yr un modd, canlyniad y diwygiad a wneir gan Reoliadau 2023 i reoliad 5 o Reoliadau 2005 yw bod dau gyfeiriad at Atodlen 2 wrth ymyl ei gilydd (h.y. Atodlen 2 Atodlen 2). Dim ond un cyfeiriad a ddylai fod at Atodlen 1, ac un cyfeiriad at Atodlen 2. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y bydd hyn yn camarwain y darllenydd gan fod y cyfeiriadau yn gyfeiriadau at yr un Atodlen â'r un rhif.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud Rheoliadau pellach mewn cysylltiad â derbyniadau i ysgolion a bydd yn ceisio cywiro'r gwallau ac rydym yn disgwyl gwneud y rhain yn ystod tymor presennol y Senedd.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

3 Mai 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, gallaf adrodd fy mod wedi mynychu cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 20 Mawrth, ar ran Gweinidog yr Economi. Nid oeddwn yn gallu rhoi gwybod ymlaen llaw am y cyfarfod gan y cafodd ei drefnu ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd y cyfarfod wrth baratoi ar gyfer cyfarfodydd dilynol rhwng y DU a'r UE gan Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a'r Cyngor Partneriaeth o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gynhaliwyd ar 24 Mawrth. Mae'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol wedi'i nodi mewn Datganiad Ysgrifenedig Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE (3 Mai 2023) | LLYW.CYMRU

Byddwn yn rhoi diweddariad ysgrifenedig am y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau a fydd yn debygol o ymddangos ar yr agenda, maes o law.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Gweinidog yr Economi, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE** |
| **DYDDIAD** | **3 Mai 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Cynrychiolais Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod rhithwir o'r Grŵp Rhyngweinidogol (IMG) ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 20 Mawrth, ar ran Gweinidog yr Economi. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Gweinidog ar gyfer Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Leo Docherty AS. Roedd Angus Robertson MSP, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant Llywodraeth yr Alban hefyd yn bresennol ynghyd ag uwch-swyddog o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon fel sylwedydd.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael (WAJC) a Chyngor Partneriaeth y DU a'r UE (PC) o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a fydd yn cael eu cynnal ar 24 Mawrth. Yn y cyfarfod, ystyriwyd yr agendau drafft ar gyfer y ddau gyfarfod.

Croesawais yr ymdeimlad gwell gyffredinol o ymgysylltu cadarnhaol â'r UE.

Ystyriodd yr IMG yr agenda PC arfaethedig a oedd yn cynnwys ynni, rheoleiddio, diogelwch a Rhaglenni'r Undeb. Codais y prif faterion canlynol:

- pryderon am gyflenwadau ynni gaeaf nesaf,
- pwysigrwydd cysylltiadau Cymru gydag Iwerddon drwy gydweithio ar brosiectau ynni,
- effaith negyddol bosibl y Bil Deddf Hawliau arfaethedig y DU ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a'r
- angen i ddod at ddatrysiad ar Horizon, gan nodi bod cyllid ymchwil a datblygu yn hanfodol i brifysgolion Cymru.

Mewn perthynas â WAJC, a drefnwyd i drafod hawliau dinasyddion, amlygais ein diddordeb mewn cael eglurder pellach ar sut y byddai dinasyddion yr UE sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog yn cael eu trin a nodi diddordeb Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau ar hyn.

Cynhaliwyd y PC ei hun ar 24 Mawrth, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru'n mynychu'n rhithiol. Cafodd WAJC hefyd ei gynnal ar 24 Mawrth, heb i Lywodraethau Cymru a'r Alban gael gwahoddiad. Mae'r datganiad ar y cyd rhwng y DU a'r UE ar y ddau gyfarfod ar gael yma Datganiad ar y cyd ar gyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a Chyngor Partneriaeth y Cytundeb  Masnach a Chydweithredu, 24 Mawrth 2023 - GOV.UK (www.gov.uk). (Saesneg yn Unig)

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **3 Mai 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023 yn gymwys i Brydain Fawr.

Caiff yr OS a enwir uchod ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan arfer pwerau a roddir gan Erthyglau 8(5), 17(1), 28(1), 28(4), 37(5), 48(5) a 105(6) o Reoliad (EU) 2016/2031 ("Rheoliadau Iechyd Planhigion") ac Atodiad 2 iddo.

O dan y pwerau a roddir gan Erthygl 28 o'r Rheoliadau Iechyd Planhigion, mae'r OS yn gwneud darpariaeth ar gyfer ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer pla cwarantin Prydain Fawr sef *Thaumetopoea processionea L* ("Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw"). Mae'r ardal hon yn cynnwys ardal lle y mae'r pla hwn wedi'i sefydlu ("y parth a heigiwyd") a pharth clustogi sydd o amgylch y parth a heigiwyd hwnnw. Dim ond mewn perthynas â Lloegr y mae hyn yn gymwys.

Mae'r OS yn gwneud dau fân gywiriad. Mae'r cyntaf yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/829. Mae'n gwneud mân gywiriad technegol i nodi gofynion penodol ar y cais awdurdodi sy'n ceisio caniatâd dros dro i gyflwyno neu symud plâu neu nwyddau planhigion a reoleiddir ym Mhrydain Fawr. Mae'r OS hefyd yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072. Mae'n gwneud mân gywiriad technegol i newid gofynion symud a mewnforio ar gyfer tatws hadyd.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 2 Mai 2023 a deuant i rym ar 24 Mai 2023.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaeth Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd Aelodau yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Pwrpas y diwygiadau**

Pwrpas yr offeryn hwn yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd drwy gyflwyno mesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion risg uchel. O fewn yr ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw, ni chaniateir symud coed derw risg uchel oni bai bod gweithredwyr proffesiynol yn cydymffurfio ag amodau bioddiogelwch ac amodau symud rhagnodedig. Mae'r OS hwn yn gwahardd symud coed derw risg uchel i unrhyw ardal y tu allan i'r ardal sydd wedi'i dynodi.

Yn ogystal, mae'r offeryn hwn yn gwneud dau gywiriad. Gwneir y cyntaf i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 ("Rheoliad Amodau Ffytoiechydol") i newid gofynion symud a mewnforio ar gyfer tatws hadyd. Mae'r ail yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/829 ("Rheoliad Rhanddirymiadau Dros Dro") er mwyn nodi gofynion penodol ar y cais awdurdodi sy'n ceisio caniatâd dros dro i symud plâu neu nwyddau planhigion a reoleiddir ym Mhrydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith y diwygiadau ar gael yma:

The Plant Health and Phytosanitary Conditions (Oak Processionary Moth and Plant Pests) (Amendment) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)

**Pam y mae cydsyniad wedi'i roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ran Cymru a hynny am resymau effeithlonrwydd, hwylustod ac i ddiogelu natur ymgysylltiedig cyfundrefn iechyd planhigion Prydain Fawr. Mae'r diwygiadau sy'n gymwys i Gymru wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae'r newidiadau yn dechnegol eu natur ac nid ydynt yn newid polisi.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/116/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

3 Mai 2023

Annwyl Gadeiryddion,

Yn unol â'r cytundeb rhyng-sefydliadol, gallaf adrodd wrth yr Aelodau imi fod yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd ar 23 Mawrth 2023, ac y prif bwnc trafododd oedd Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a Chynllun Twf Sero Net y DU.

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd Michael Matheson ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth, Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol yn Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd, a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, Graham Stuart MP, Gweinidog Gwladol Diogelwch Ynni a Sero Net, James Cartlidge AS, Ysgrifennydd Trysorlys i'r Trysorlys a'r Farwnes Vere, Is-ysgrifennydd Gwladol, Yr Adran Drafnidiaeth.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon